# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 11/09/2018 Siop Siarad am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Is-gadeirydd) | Gruffydd Williams | Gwynfor Jones | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Rhian Hughes-Jones (Clerc) | Sian Hughes | Andrew Owen | Lleucu Jones | Carys Roberts |
| | Arfon Hughes | Janice Evans | Glenda Rice | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Rhys Tudur a Guto Williams

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**

| | |
|---|---|
| Gruffydd Williams | Ceisiadau Cynllunio - Aelod o Pwyllgor Cynllunio |
| | Tafarn Yr Heliwr – Aelod o Bwyllgor Tafarn Yr Heliwr |
| Andrew Owen | Gwasanaeth Ieuenctid – Swydd o fewn y gwasanaeth |
| Sharon Williams | Tafarn Yr Heliwr – Perchenog siar yn Nhafarn Yr Heliwr |
| Rhian Hughes-Jones (Clerc) | Tafarn Yr Heliwr – Aelod o Bwyllgor Tafarn Yr Heliwr |
| Arfon Hughes | Tafarn Yr Heliwr – Perchenog siar yn Nhafarn Yr Heliwr |
| Glenda Rice | Tafarn Yr Heliwr – Perchenog siar yn Nhafarn Yr Heliwr |
| Bleddyn Evans | Tafarn Yr Heliwr – Aelod o Bwyllgor Tafarn Yr Heliwr |

3. **Cofnodion 10/07/2018 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - Niferoedd o ebyst sydd yn cael eu gyrru i'r aelodau.
   - Atgoffa aelodau o gyfarfodydd sydd eisioes wedi eu trefnu.

   Nodwyd and yw'r maternion yma yn faterion brys ac cytunwyd yw rhoi ar agenda mis Tachwedd

5. **Gwasanaethau Ieuenctid**
   Mae'r Cyngor Tref wedi cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd i drafod dyfodol rhedeg y Clwb Ieuenctid yn hytrach na'i waredu. Gweler Atodiad 1 Arfon Hughes yn egluro'r opsiynau yn dilyn y cyfarfod.
   Bydd angen cynnal cyfarfod cyhoeddus i drafod y mater gyda'r cyhoedd cyn gellir codi'r preasept. Bydd angen trefnu hyn cyn gynted â phosib.
   Mae Gruff Williams wedi bod mewn trafodaeth hefo Cyng.. Craig AbIago i drafod y mater ym mhellach.
   Mae dau opsiwn i gynnal y clwb, gellir ei gynnal yn y ganolfan neu yn siop siarad. Gan gofio mai Cyngor Tref Nefyn fydd yn gyfrifol yn ariannol am unrhyw ddifrod sydd yn cael ei achosi. Mae'r clwb wythnosol symudol hefyd ar gael i'r Ieuenctid. Disgwylir felly niferoedd llai yn mynychu yn wythnosol.
   Cytunwyd gwneud cais am grant i bontio'r clwb hyd at ddiwedd mis Mawrth gydag ystyriaeth yw gosod ar y preasept i'r dyfodol.
   Bydd angen gwneud trefniadau rheolaeth gadarn.

6. **Awdit**
   Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Wedi derbyn sylwadau gan BDO yn amlinellu nifer o bwyntiau. Mae'r clerc wedi ymateb ac yn disgwyl ymateb gan y BDO.
   Mae'r tabl ar gael i unrhyw un sydd hefo diddordeb.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**7. Traethau**

Diweddariad gan Arfon Hughes – Gwaith da iawn eleni gan y Warden ar draeth Nefyn. Roedd trefn ar y traeth yn ystod orau gwaith y warden ond yn anffodus roedd y sefyllfa yn flêr pan roedd y warden ddim yno.

Diweddariad gan Sian Hughes – Yn anffodus roedd y Warden yn Forfa Nefyn wedi cael dipyn o amser gwael. Mae aelodau lleol o'r cyhoedd wedi bod yn ddyfal barhau i ddinistrio cwt y warden yn achosi sefyllfa lle'r oedd yn rhaid galw ar yr heddlu. Mae hyn yn siomedig iawn.

Mae'r hyn yn cryfhau'r achos i gael rhwystr ar y traethau trwy'r flwyddyn. Bydd yr ymddiriedolaeth yn gosod rhwystr a ni fydd yna felly gyfraniad at gostau a ni ellir fforddio cadw'r warden yn Nefyn ychwaith.

Nodwyd bod llwybr ceffyl yn mynd ar y traeth ond nid yw hyn yn rhoi hawl i gymaint o geir fynd ar y lan y môr.

Mae yna dal bryderon mawr ynglŷn â'r niferoedd o jetski sydd yn gyrru o gwmpas y cyhoedd sydd yn nofio yn y dŵr. Mae'r sefyllfa yn ofnadwy o beryg o hyd.

Yn dilyn trafodaeth ddiweddar gyda pherchnogion rhai o'r cytiau lan y môr yn Nefyn ynglŷn â'r llanast, maent yn nodi eu bod yn hapus i wneud yn siŵr bod y safle yn cael ei glirio yn iawn.

**8. Llwybrau**

Diweddariad gan Gruffydd Williams – Mae llwybr y morwyr yn agored gyda phontydd dros Gors Geirch sydd yn SAC. Mae yna arian wedi ei ddynodi ar gyfer arwyddion, bydd angen sicrhau bod yr arwyddion ar gael cyn gynted a bod modd yw gosod.

Mae llwybr dros y golff wedi bod yn achosi trafferthion yn ddiweddar gyda mynediad wedi ei amharu. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yno i ddatrys y sefyllfa.

Buasai'n syniad cael mapiau ar gael i'r cyhoedd i hyrwyddo'r llwybrau i gyd.

**Meinciau**

Mae nifer o geisiadau wedi codi ar gyfer gosod mainc. Mae'r pwyllgor yn hapus iawn i'r ymgeiswyr ail osod meinciau sydd eisoes wedi ei dirywio. Mae Arfon Hughes a Rhian Hughes Jones am drefnu hefo'r ymgeiswyr.

**9. Diffibriliwr**

Diweddariad gan Sian Hughes a Rhian Hughes-Jones – Mae yna nifer o broblemau wedi codi yn dilyn argyfwng yn Forfa Nefyn. Nid oedd y cyhoedd yn gwybod lle oedd y diffibriliwr ac yn chwilio amdano yn y ganolfan. Wedi ffeindio'r diffibriliwr yn yr ysgol roedd rhaid malu'r bocs i gael ato gan fod y cod yn anghywir.

Yn ogystal i hyn mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad hefo'r cydlynydd diffibriliwr yng Nghymru i drafod y sefyllfa. Yn dilyn ymweliad a'r holl diffibriliwr yn yr ardal nodwyd;

Ysgol Nefyn; Dim padiau ynddo.

Morfa Nefyn; Padiau allan o ddyddiad a bocs wedi malu.

Edern; Padiau a batri allan o ddyddiad.

Mae'r padiau bellach wedi eu newid / gosod yn Forfa Nefyn a Nefyn ond mae angen batri a phadiau ychwanegol yn Edern. Mae'r sefyllfa yn boenus iawn. Cynnigwyd hefyd i waredu'r cod er mwyn gwneud hi'n hawdd i gael at y diffibriliwr mewn argyfwng.

Bydd y Clerc yn cydlynu hefo'r swyddogion priodol i ddatrys y sefyllfa.

**10. Siop Siarad**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Mae'r gwaith adnewyddu yn mynd yn ei flaen diolch i ieuenctid Nefyn am eu gwaith arbennig dan arweiniad Andrew Owen.

Bydd y Clerc yn gosod dyddiadau lle gellir cael mynediad i glirio yn Siop Siarad ai gyrru allan i'r aelodau i gyd. Byddwn yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw help.

**11. Llyfrgell**

Diweddariad gan Sharon Williams – Wedi derbyn ymateb gan Gyngor Gwynedd nodwyd nad oes bosib cael disgresiwn gan yr adran treth ac nid oeddent yn disgwyl y fath godiad yn y dreth eleni ychwaith. Mae'r ddeddf llywodraeth leol 1998 yn gadarn. Nid oes unrhyw ddewis ond i dalu'r dreth. Cytunwyd i dalu'r dreth.

**12. Mynwentydd**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Wedi derbyn cwyn bod y biniau yn fynwent Morfa Nefyn a Nefyn yn orlawn er y biniau newydd. Mae'r Clerc wedi methu a darganfod contract gyda'r contractwr. Mae'r contractwr yn hapus iawn i weithio hefo'r Cyngor Tref i drefnu contract gwaith ffurfiol. Bydd eisiau nodi; Faint o aml mae'r biniau yn cael eu gwagio. Beth sydd yn digwydd i'r gwastraff. Cyfrifoldeb i gysylltu gyda'r sawl sydd yn gwaredu'r ysbwriel.

Bydd y Clerc yn drafftio'r contract a'i ddychwelyd i'r pwyllgor yw gwirio.

**13. Clirio Dogfennau Hanesyddol**

Gweler eitem 10 uchod.

**14. Gwefan y Cyngor**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones – Mae'r problemau wedi ei datrys bellach diolch i'r darparwr am ei drwsio. Rwyf wedi gallu ychwanegu'r a gwyro'r holl wybodaeth ac mae'r wefan yn gyflawn.

**15. Pwyllgor Tafarn yr Heliwr**

Diweddariad gan Bleddyn Evans – Egluro beth yw ystyr cyd weithio hefo'r gymuned fel y nodwyd yn y llythyr. Mae Pwyllgor tafarn yr Heliwr yn awyddus i gyd weithio i wella cymuned Nefyn ac ehangach.

Mae pwyllgor Cyngor tref yn awyddus i gael gwybod beth yn union ydi cyfrifoldebau'r cyngor tref ond mae'r pwyllgor yn cytuno ei bod yn hollol gefnogol i'r holl brosiect.

Bydd y Clerc yn gyrru llythyr cefnogol i Bwyllgor Tafarn yr Heliwr.

**16. Gwynedd Digidol**

Diweddariad gan Bleddyn Evans a Rhian Hughes-Jones yn dilyn cyfarfod hefo Rachel Roberts o dîm Gwynedd Digidol – Gweler Atodiad 2

Mae'r Cyngor Tref wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grant i fynd ymlaen hefo'r prosiect. Bydd angen cyfraniad o 10% at y gwaith gan y Cyngor Tref ac mae hyn wedi ei chadarnhau. Mae Bleddyn Evans yn hapus i gyfarfod hefo'r contractwr i fynd trwy'r gosodiad a chyfleon.

**17. Tir ymddiriedolaeth Nefyn**

Gwybodaeth gan Gruff Williams – Nodwyd bod 53 acer o dir sydd yn cael ei rhedeg gan bwyllgor Tir Ymddiriedolaeth Nefyn. Cynigwyd bod hi'n amserol i gynnig derbyn cyfrifoldeb o'r tir ac felly meddiant o'r tir. Bydd y Clerc yn cysylltu hefo'r pwyllgor i gynnig derbyn y cyfrifoldeb.

**18. Cyllideb 2019-2020**

Diweddariad gan Arfon Hughes – Nodwyd ei fod yn briodol i drefnu cyfarfod is-bwyllgor ariannol at fis Tachwedd fel y gellir gadael ddigon o amser i dderbyn hyfforddiant cyllidol a chreu cyllideb 3 mlynedd yn barod i wneud y preasept.

Cynigwyd bod cadeirydd pob is-bwyllgor yn aelod o'r pwyllgor ariannol er sicrhau gwariant cywir.


Clerc: Rhian Hughes-Jones

Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.

• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com

Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

19. **Gwastraff**

    Gwybodaeth gan Sharon Williams – Nodwyd bod y safle ail-gylchu bellach wedi ei waredu ac mae'r safle yn llawer gwell.

    Gofynnwyd a oes ddatblygiad i'r cais i ail leoli bin sbwriel safle ailgylchu wrth y safle bws wrth Dŷ Doctor. Bydd y Clerc yn edrych i mewn i'r sefyllfa.

    Gofynnwyd hefyd a oes posib cal bin ysbwriel yn waelod Lôn Gam Nefyn, eto bydd y clerc yn gwneud cais.

## Ceisiadau Cynllunio

**C16/1089/42/LL**
Adeiladu adeilad newydd i gynhyrchu a gwerthu hufan ia, ystafell addysgiadol, a chreu mynedfa newydd, parcio a thirlunio
Tir rhan o Fferm Bryn Rhydd, Edern
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0581/42/LL**
Addasu a trosi 2 feudy i ffurfio rhan o'r ty annedd presennol ynghyd a gosod ffenestr gromen a codi estyniad unllawr to fflat gyda balconi ar y to.
Tyn Y Coed, Cefn Morfa, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0552/42/LL**
Creu mynedfa gerbydol newydd
Gwynfa, Lon Penrhos, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0734/42/LL**
Gosod ffenestri to velux cefn
Hafod, Mynydd Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0741/42/LL**
Adeiladu estyniad unllawr to gwastad cefn ac addasiadau i'r ty er creu ystafelloedd yng ngofod y to, ffenestri gromen blaen a phorth
Erw Wen, Lon Penrhos, Morfa Nefyn
**Gwrthwynebiad ar sail gôr ddatblygiad o'r safle yn ogystal â newid i gymeriad yr ardal; Dyluniad annerbyniol yn cynnwys to fflat sydd yn newid agwedd y tŷ.**

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**<u>Gohebiaeth</u>**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Awst a Medi 2018
2. **SLCC** - Bwletin Aws a Medi 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Awst a Medi2018
4. **Local Council Update** – Awst a Medi 2018
5. **Heneiddio yn Dda yng Nghymru -** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad o ba mor effeithiol yw'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru
6. **Comisiynydd Pobl Hyn Cymru -** Cylchlythyr Haf 2018
7. **Cylchlythyr 008/2018 –** Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd
8. **Coed Cadw -** Oes yna goeden yn eich yn eich milltir sgwâr chi sy'n arbennig iawn?
9. **Gwynedd Digidol** – Diweddariad i Wi-Fi cymunedol
10. **Cylchlythyr Ddatgarboneiddio -** Cyflawni ein llwybr carbon isel hyd at 2030
11. **Priffyrdd** - Rybudd cau ffordd mewn Argyfwng
12. **Ysgol Morfa Nefyn** – Llythyr diolch am cyfraniad
13. **Cylch Meithrin Nefyn** - Llythyr diolch am cyfraniad
14. **GIG -** Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol
15. **Panel Yr Adolygiad Annibynnol** - Sesiwn Wybodaeth i Randdeiliaid
16. **Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio** - Cais am dystiolaeth - Darparu tai drwy'r system gynllunio
17. **Cymorth Cynllunio Cymru** – Newyddion
18. **Comisiwn Elusen –** Newidiadau i ddiweddaru manylion eich elusen.
19. **Rheolaeth Adeiladu** - Gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau uchel iawn
20. **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** - Ymgynghoriad: Bil Awtistiaeth (Cymru)
21. **Un Llais Cymru** - Bwletin newyddion Mawrth 2018
22. **Llywodraeth Cymru –** Cylchlythyr Awst
23. **Llywodraeth Cymru -** ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar Bolisi Echdynnu Petrolewm yng Nghymru.
24. **Eglwys Santes Fair Morfa Nefyn** – Diolch
25. **Gerddi Llwyd** – Cynnig gwasanaeth torri gwair
26. **Cartrefi Cymunedol Gwynedd** – Eiddo ar gael yn Morfa Nefyn
27. **Cyngor Iechyd Cymuned** - Holi Cleifion am 'Un Peth Syml' i wella Cyfathrebu yn y GIG yng Nghymru
28. **Cyngor Gwynedd** - Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio
29. **Partneriaethau Llywodraeth Leol -** neges ar ran panel yr adolygiad annibynnol.
30. **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** - Ymgynghoriad: Cefnogi a hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach
31. **Grwp Cynhefin** – Adroddiad Blynyddol 17-18
32. **Cymorth Cynllunio Cymru** - Deall Ardoll Seilwaith Cymunedol a Chyfraniadau Adran 106
33. **Un llais Cymru** - Hyfforddiant - Cyngor Tref
34. **Cwmni Fran Wen** – cais yn anllwyddianus
35. **Tim carbon Isel** - Digwyddiadau'r ymgynghoriad
36. **Unllais cymru** – cofnodion cyfarfod blynyddol
37. **Llywodraeth Cymru** - Rhwydweithiau Arloesi Cludiant yn rhan o'r prosiect "Cysylltu Cymunedau yng Nghymru"
38. **Llywodraeth Cymru** - Bwletin Adnoddau Naturiol - Rhifyn 30
39. **Llywodraeth Cymru** - Beth yw eich barn chi am ffracio a datblygu methan gwelyau glo yn y dyfodol yng Nghymru?

# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 11/09/2018 Siop Siarad am 7yh

**Taliadau yw gwneud**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** Awst a Medi | **£1595.04** |
| **Rhian Hughes-Jones** – Ad-daliad byrddau Siop Siarad | **£224.40** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£33.88** |
| **Bacstal –** Gwasanaeth cyflogaeth | **£118.50** |
| **G J Jones** | |
| 04/07/2018 - £375.00 | |
| 12/08/2018 – £375.00 | |
| **Clif Hughes** – | **£750.00** |
| Taliad 5 a 6 contract 2018-19 - £1650.00 | |
| Gwaith Ychwanegol No 73 - £558.00 | |
| Gwaith Ychwanegol No 80 - £305.00 | |
| **Mr David Parry** – Gwaith Mynwentydd | **£2513.00** |
| 3ydd taliad Nefyn - £833.00 | |
| 3ydd taliad Morfa Nefyn - £166.00 | |
| **Treth y Cyngor** – | **£999.00** |
| Llyfrgell 17-18 – £13.12 | |
| Llyfrgell 18-19 - £1644.80 | |
| **Sharon Williams** – Ad-daliad | **£1657.92** |
| **Robyns Owen** – Trefnu Les Siop Siarad | **£50.00** |
| **PWLB** – Taliad benthyciad (DD) | **£180.00** |
| **Gareth Williams** – Gwaith ar trol cludo | **£576.44** |
| **Gareth Williams – BIG** | **£300.00** |
| Anfoneb 284 – meinciau parc y Ddol £672.00 | |
| Anfoneb 213 – Llwybr o tan y Graig i Nefyn £3000.00 | **£3672.00** |
| **Designer Signs** – arwyddion (BIG) | **£560.52** |

**<u>Taliadau wedi eu derbyn</u>**

| | |
|---|---|
| **Scottish Power -** Ad-Daliad | **£103.19** |
| **Ifan Hughes Trefnwr Angladdau** | **£930.00** |
| **Taliad Angladd** | **£630.00** |
| **Paragon Taliad Angladd** | **£655.00** |
| **R O Jones Angladd** | **£915.00** |
| **PRAESEPT – 2018-19** | **£30279.05** |

**<u>Ceisiadau am gyfraniad</u>**

1. **LLYFRAU LLAFAR CYMRU** - Bob blwyddyn byddwn ni, yn Llyfrau Llafar Cymru yn recordio 50 o lyfrau Cymraeg a Saesneg fel y gall pobl sydd â nam ar eu golwg fwyhau pob math o lenyddiaeth.
2. **Nyrsys Marie Curie -** Mae'r holl arian sydd yn cael ei cyfrani yn cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie, felly gall y claf a teuluoedd yn y cymuned gael help gan eich rhodd.

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf**

1. Niferoedd e-byst sydd yn cael eu gyrru i'r Cynghorwyr ac atgoffa Cynghorwyr am gyfarfodydd sydd eisoes wedi eu trefnu.
2. Siop Kebab – defnydd o blastic ac ysbwriel.
3. Tir Ymdduriedolaeth.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**Atodiad 1**

**COFNODION Cyfarfod Gwasanaethau Ieuenctid, Nos Lun 03/09/2018 Siop Siarad Nefyn 7yh**

**Presennol**

Arfon Hughes (CAD)

Rhian Hughes-Jones (Clerc)

Nia Vaughan Morris Cyngor Gwynedd

Bryn Roberts Cyngor Gwynedd

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Andrew Owen

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Dim

3. **Opsiynau sydd ar gael gan Cyngor Gwynedd**
   Mae tri opsiwn ar gael I'r dyfodol;

   **Gwirfoddol**
   Mae hyn yn golygu bydd y gwasanaeth yn ddibynnol ar wirfoddolwyr yw rhedeg a gweinyddu. Ni ffydd ddim cyfraniad gan Gyngor Gwynedd. A bydd rhaid i'r gwirfoddolwyr fod yn gymwys hefo DBS cyfredol.

   **Cadw'r gwasanaeth yr un peth**
   Mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth achlysurol sydd eisoes wedi ei benderfynu dal ar gael dros Wynedd ond ni fydd clwb pwrpasol wythnosol yn Nefyn. Ni fydd cyfraniad gan Gyngor Gwynedd.

   **Grant byr dymor ar gael**
   Mae'r model newydd yn gynnig grant i redeg clwb wythnosol o fis Hydref at Ragfyr ac yna o Ionawr at Fawrth. Bydd y clwb yn cael ei rhedeg gan ddau swyddog cymwys am ddwy awr yr wythnos am 20 wythnos. Mae'r grant yn talu am y ddau swyddog a rhent gofod am ddwy awr yr wythnos.
   Bydd Cyngor Tref Nefyn yn apwyntio staff ar y cyd hefo Cyngor Gwynedd.
   Gellir defnyddio Siop Siarad ar gyfer y clwb a chodi rhent hyd at £25 y noson.
   Ni fydd yna staff wrthgefn os bu salwch ac ati ond bydd yn derbyn gwirfoddolwr i orchwylio.
   Cyngor Tref Nefyn bydd yn gyfrifol am yswiriant.

   **Model ariannol**

| Staff | Pwynt Cyflog | Cost Staffio am 1 Noson |
|---|---|---|
| Gweithiwr Prosiect | 9 | £26.36 |
| Gweithiwr Prosiect | 9 | £26.36 |
| Cyfanswm | | £57.72 |
| 25 wythnos | | £1318.00 |
| 30 wythnos | | £1581.60 |
| 52 wythnos | | £2741.44 |

4. **Opsiynau Eraill**
   Gweithio hefo Clwb Ffermwyr Ifanc neu Yr Urdd er mwyn darparu gwasanaeth ar y cyd.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 11/09/2018 Siop Siarad am 7yh

**Atodiad 2**

**COFNODION Cyfarfod Gwasanaethau Ieuenctid, Nos Fercher 05/09/2018 Siop Siarad Nefyn 7yh**

**<u>Presennol</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Bleddyn Evans | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | Rachel Roberts Swyddog Prosiect Menter Mon |

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Dim

3. **Cyflwyniad**
   Mae Nefyn wedi bod yn ffodus iawn I fod yn un o ddeg cymuned dros wynedd I dderbyn wi-fi cyhoeddus
   Mae Menter Môn wedi ennill y gytundeb i weithredu y cynllun Wi-Fi ar ran Cyngor Gwynedd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Paul Sandham sydd yn ymgynghorydd digidol i'r prosiect.
   Y cam cyntaf yw i gadarnhau pa ardal o'r cymuned sydd yn cael y cysylltiad Wi-Fi.
   Bydd hefyd angen cadarnhau bod gennym yr arian cyfatebol tuag at y prosiect.
   Y gobaith yw y bydd yr wi-fi wedi ei osod mis Hydref / Tachwedd

4. **Costau**
   - Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Wynedd Digidol yn y man cyntaf gyda grant o £100,000 yw rhannu rhwng 10 cymuned - £10,000 yr un.
   - Mae'n costio o gwmpas £800 y flwyddyn yw rhedeg.
   - Bydd opsiwn i fusnesau gyfrannu.
   - Bydd angen arian cyfatebol i ddechrau – 10% o'r gost.

5. **Lleoliad**
   Mae'r map isod yn nodi lle bydd y wi-fi ar gael, mae Bleddyn Evans wedi awgrymu dylid hwn ymestyn i lawr at y traeth. Mae'r ddaearyddiaeth yn anodd yma ond yn syniad da i weld os oes posibilrwydd.
   Pan mae'r lleoliad wedi ei gadarnhau bydd Paul Sanham yn dod i nodi lleoliadau union i'r offer.

6. **Newyddlen**
   Mae'n gyfle I dargedu pobl lleol ac ymwelwyr wrth hysbysu digwyddiadau yn yr ardal ac I rhannu gwybodaeth.
   Bydd hefyd hyfforddiant GDPR ar gael.

7. **Busnesau**
   Gellir rhoi'r cyfle i fusnesau ddefnyddio'r wi-fi tu fewn am ffi. Bydd y gost tua £250 y flwyddyn sydd yn gystadleuol iawn.
   Bydd Rachel Roberts yn darparu pac i fusnesau fel eu bod yn derbyn y wybodaeth i gyd.

## Nefyn Adolygiad cychwynnol / Initial review

Gorffenaff/July 2018 v1.1 P Sandham
Ardal Arfaethedig y Gymuned i'w cynnwys - Canol y pentref, (a'r traeth?) Stryd Fawr, Ffordd Dewi Sant Proposed Area of Community to be covered - Village centre (& beach?)




https://drive.google.com/open?id=191mTSd5ciag_Z1yByQM_Z3INlcYjtr1D&usp=sharing

Pwynt mynediad y rhwydwaith / Proposed Network entry point
a) Ysgol Nefyn Ffordd Dewi Sant,, Nefyn, Pwllheli LL53 6EA Cabinet E3 on Nefyn Exchange - 73 Mb/s
b) Maritime Museum
Caledwedd/Hardware No of Bridges - 8 No. of Access points - 11
Difficult to be confident about coverage. Terrain, layout and lack of commercial premises might cause issues. Access point and Bridge Locations need both on-site physical survey and clearly consent of owners. Ysgol Nefyn, Nanhoron Arms, Bombay Joes, Siop Newydd, Spar and Maritime Museum key to any coverage. Additional costs for installation of points on tower of Museum Beach would be fantastic. Would have to be bridged from somewhere in village (Maritime museum tower?) . Hasn't been included.
Guesstimate £8 - 9K